



FAQs Rhieni / Gofalwyr 17.12.2021

C	Gan fod ysgol fy mhlentyn yn cau, sut mae gwneud trefniadau i'm plentyn / plant fynychu'r ddarpariaeth gweithiwr hanfodol / agored i niwed yn fy ysgol?
A	Bydd angen i chi gysylltu'n uniongyrchol â'ch ysgol er mwyn trefnu.
C	Sut ydw i'n gwybod a ydw i'n gymwys i ddefnyddio'r ddarpariaeth gweithwyr hanfodol yn yr ysgol?
	Bydd y ddolen atodedig yn darparu gwybodaeth bellach am gymhwysedd i gael mynediad at y ddarpariaeth gweithwyr hanfodol Adnabod plant gweithwyr hanfodol: canllawiau LLYW.CYMRU Os ydych chi'n gweithio gartref ar hyn o bryd rydyn ni'n gofyn yn garedig i chi ymatal rhag anfon eich plant i'r ddarpariaeth gweithwyr hanfodol i sicrhau y gallwn ni gefnogi'r rhai mewn angen.
C	Bydd fy mhlentyn / plant yn defnyddio'r ddarpariaeth gweithwyr hanfodol / agored i niwed, a fydd cinio ar gael?
A	Bydd trefniadau arferol ar gyfer cinio ar gael.
C	Mae fy mhlentyn / plant gartref oherwydd cau'r ysgol maen nhw fel arfer yn derbyn pryd ysgol am ddim, pa drefniadau sydd ar gael?
A	Bydd taliad yn cael ei wneud i chi ym mis Ionawr os yw'r plentyn / plant gartref. Os ydynt yn mynychu'r ddarpariaeth gweithwyr hanfodol, byddant yn derbyn pryd bwyd fel trefniadau arferol.
C	Ydi'r ddarpariaeth clwb brecwast / ar ôl ysgol ar gael yn ystod tri diwrnod olaf y tymor os yw fy mhlentyn / plant yn mynychu'r ddarpariaeth gweithwyr hanfodol/agored i niwed?
A	Na, ni fydd hyn ar gael wythnos nesaf. Dim ond o fewn oriau ysgol arferol y mae'r ddarpariaeth gweithwyr hanfodol ar gael.
C	Mae fy mhlentyn yn oedran meithrin, oes modd cael y ddarpariaeth gweithwyr hanfodol?
A	Yn anffodus dim ond i oedran statudol ysgol mae'r ddarpariaeth ar gael, oedran Derbyn i fyny.

C	Ydi hyn yn golygu fod bob ysgol yng Nghonwy ar gau o'r 17.12.2021
A	Ydi ond mae ysgol arbennig ar unedau cyfeirio disgyblion ar agor.
C	Gan fod yr ysgol bellach yn cau ar gyfer dysgwyr o'r 17.12.2021, beth fydd yn cael ei gynnig i'm plentyn / plant am ychydig ddyddiau olaf y tymor?
A	Bydd pob ysgol yn cysylltu a rhieni/gofalwyr a byddant yn cynnig dysgu cyfunol yr wythnos nesaf tan ddiwedd y tymor. Os oedd diwrnod hyfforddi / HMS wedi'i gadarnhau eisoes ar gyfer ysgol eich plentyn / plant ar gyfer yr wythnos nesaf yna ni ddarperir unrhyw gynnig dysgu ar y diwrnod hwn, gan bod rhybudd digonol am y diwrnod hyfforddi / HMS wedi ei roi.
C	Roedd ysgol fy mhentyn / plant wedi archebu lle i fynd i'r panto wythnos nesaf, ond nawr bod yr ysgol ar gau, a fyddaf yn cael ad-daliad?
A	Bydd ad-daliad yn cael ei wneud i chi. Bydd yr ysgol yn eich diweddarau.
C	Nid oes gan fy mhentyn / plant unrhyw ddyfais i gael mynediad at ddysgu o bell yr wythnos nesaf?
A	Bydd angen ichi wneud cyswllt gyda'r ysgol er mwyn iddyn nhw gael rhoi trefniant yn ei le.
C	A fydd bysiau ysgol yn rhedeg ar gyfer plant gweithwyr hanfodol a dysgwyr Bregus?
A	Mi fydd bysiau ysgol yn rhedeg yn ôl yr arfer ar gyfer plant gweithwyr hanfodol a dysgwyr sy'n agored i niwed (fel y nodwyd gan yr ysgol) ac sydd eisoes yn gymwys i gael cludiant. Ar gyfer y phlant nad ydynt yn gymwys i gael cludiant, dylai rhieni barhau â'u trefniadau arferol.
C	A fydd Tacsis ysgolion prif ffrwd yn dal i redeg?
A	Ni fydd gwasanaethau tacsî i ysgolion Prif Ffrwd yn rhedeg yr wythnos nesaf. Fodd bynnag, gall cael tacsî ar gyfer plant gweithwyr hanfodol a dysgwyr sy'n agored i niwed fel y nodwyd gan yr ysgol ac sydd eisoes yn gymwys i gael cludiant weithredu. Y rhai sydd angen cludiant tacsî i'r ysgol / pwyntiau codi, dylai rhieni gysylltu â'u darparwyr Tacsî yn uniongyrchol i gadarnhau'r gofynion. Dylai fod gan rieni / gofalwyr fanylion eu darparwyr Tacsî, ond os oes angen cymorth pellach arnynt, cysylltwch â: home2school@conwy.gov.uk
C	Pryd fydd fy mhentyn / plant yn dychwelyd i'r ysgol?
A	Bydd pob dysgwr yn dychwelyd i ddarpariaeth addysgol erbyn dydd Llun 10.01.2022.
C	Mae fy mhentyn / plant yn mynychu'r ddarpariaeth gweithwyr hanfodol yr wythnos nesaf? A fydd gofyn iddynt brofi cyn mynychu?

<p>A</p>	<p>Gofynnwn i bob dysgwr ysgol uwchradd barhau i gymryd rhan yn y profion LFT fel y byddent fel arfer. Nid oes disgwyl i ysgolion cynradd brofi. Gofynnwn na ddylai unrhyw ddysgwr fynychu'r ddarpariaeth gweithwyr hanfodol os yw'n arddangos unrhyw symptomau.</p> <p>Os oes gan eich plentyn unrhyw symptomau COVID-19 newydd, bydd angen iddyn nhw hunanynysu a threfnu prawf PCR ar unwaith. Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed os ydi'r symptomau yn ysgafn neu os ydynt wedi profi'n positif o'r blaen.</p> <p>Dyma brif symptomau COVID-19:</p> <p>tymheredd uchel peswch cyson colli'r synnwyr arferol o flas neu arogl, neu sylwi ar newid ynddynt</p> <p>Dylai'r plentyn barhau i hunanynysu hyd nes ddoith canlyniad y prawf. Os ydi'r plentyn wedi cael prawf llif unffordd positif, bydd rhaid ynysu ac archebu prawf PCR cyn gynted â phosibl.</p>
<p>C</p>	<p>Beth sydd angen i'm plentyn / plant ei wneud cyn dychwelyd i'r ysgol ar y 10fed o Ionawr 2022?</p>
<p>A</p>	<p>Y disgwyl yw y dylai holl staff a dysgwyr oed uwchradd neu'n hŷn <u>brofi deirgwaith yr wythnos gan ddefnyddio LFDs</u> (ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener) yn ystod yr wythnos cyn dychwelyd i'r ysgol ac yna parhau i brofi'n rheolaidd dair gwaith yr wythnos ar ôl dechrau tymor ym mis Ionawr.</p>